# Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

**2018 dccc 2**

## RHAN 2

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

## PENNOD 2

CYNLLUNIAU DATBLYGU UNIGOL

*Darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer personau sy'n cael eu cadw'n gaeth*

### 44 Darpariaethau penodol Rhan 2 nad ydynt i fod yn gymwys i blant a phersonau ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth

(1) Mae'r dyletswyddau a osodir gan y darpariaethau yn is-adran (2) ar y cyrff a ganlyn yn peidio â bod yn gymwys mewn perthynas â pherson sy'n cael ei gadw'n gaeth o ddechrau'r cyfnod o gadw'r person hwnnw yn gaeth—

(a) corff llywodraethu ysgol a gynhelir;

(b) corff llywodraethu sefydliad yn y sector addysg bellach;

(c) awdurdod lleol.

(2) Y darpariaethau yw—

(a) adran 11 (dyletswydd corff llywodraethu i benderfynu);

(b) adran 12 (dyletswydd corff llywodraethu i lunio a chynnal cynllun);

(c) adran 13 (dyletswydd awdurdod lleol i benderfynu);

(d) adran 14 (dyletswydd awdurdod lleol i lunio a chynnal cynllun);

(e) adran 26 (dyletswydd awdurdod lleol i ailystyried penderfyniad corff llywodraethu);

(f) adran 30(2) (dyletswydd corff llywodraethu i atgyfeirio pan fo plentyn neu berson ifanc wedi ei gofrestru neu wedi ymrestru mewn mwy nag un sefydliad);

(g) adran 47(2) (dyletswydd corff llywodraethu i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol).

(3) Nid yw'r dyletswyddau a osodir gan y darpariaethau yn is-adran (4) ar gorff llywodraethu ysgol a gynhelir neu ar gorff llywodraethu sefydliad yn y sector addysg bellach yn gymwys mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc ar unrhyw adeg tra bo'r plentyn hwnnw neu'r person ifanc hwnnw—

(a) yn ddarostyngedig i orchymyn cadw (o fewn yr ystyr a roddir i "detention order" gan adran 562(1A)(a), (2) a (3) o Ddeddf Addysg 1996), a

(b) wedi ei gadw'n gaeth mewn llety ac eithrio llety ieuenctid perthnasol yng Nghymru neu yn Lloegr.

(4) Y darpariaethau yw—

(a) adran 11 (dyletswydd i benderfynu);

(b) adran 12 (dyletswydd i lunio a chynnal cynllun);

(c) adran 17 (dyletswydd i atgyfeirio mater i awdurdod lleol sy'n gofalu am blentyn);

(d) adran 30(2) (dyletswydd i atgyfeirio pan fo plentyn neu berson ifanc wedi ei gofrestru neu wedi ymrestru mewn mwy nag un sefydliad);

(e) adran 47(2) (dyletswydd i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol).

(5) Mae is-adran (6) yn gymwys hyd nes bod adran 49 o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p. 22) (cymhwyso darpariaethau i bersonau sy'n cael eu cadw'n gaeth mewn llety ieuenctid perthnasol) yn dod i rym yn llawn o ran Cymru.

(6) Mae adran 562 o Ddeddf Addysg 1996 (p. 56) i gael effaith at ddiben y pwerau a'r dyletswyddau a roddir neu a osodir gan neu o dan y Rhan hon ar awdurdodau lleol fel pe bai adran 49 o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p. 22) mewn grym yn llawn o ran Cymru.

(7) At ddibenion y Rhan hon, mae'r cyfeiriad yn is-adran (1) o adran 562 o Ddeddf Addysg 1996 (p. 56) at lety ieuenctid perthnasol i gael effaith fel pe bai'n gyfeiriad at lety ieuenctid perthnasol yng Nghymru neu yn Lloegr.